**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-21-02(min)**

## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 28 Tachwedd 2002 | |
| **Amser:** | 9.00am tan 12.10pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| | Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | Geraint Davies | Rhondda |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | **Aelodau eraill (Eitem 3)** | |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| | **Yn Bresennol** | |
| | Peter Clarke | Comisiynydd Plant Cymru |
| | Maria Battle | Comisiynydd Cynorthwyol |

| | |
|---|---|
| Rhian Davies | Comisiynydd Cynorthwyol |
| Sara Reid | Comisiynydd Cynorthwyol |
| Eoin Redahan | Cymdeithas y Strôc |
| Trish Hughes | Cymdeithas y Strôc |
| Richard Thomas | Cymdeithas y Strôc |
| **Swyddogion yn bresennol** | |
| Chris Burdett | Plant a Theuluoedd |
| Ceri Breeze | Strategaeth Iechyd y Cyhoedd |
| Lynne Hamilton | Rhaglen Newid Strwythurol i'r GIG |
| Mike Ponton | Y Tîm Strategaeth a Chynllunio Iechyd a Lles |
| **Yr Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Lynne Neagle a Jocelyn Davies. Cymerodd Huw Lewis le Lynne Neagle.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

**Eitem 2: Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles**

*(9.05 - 9.30am)*

**Papur: HSS-21-02(p.1)**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a dywedodd fod y canllawiau drafft yn cael eu paratoi ochr yn ochr â hynt y rheoliadau trwy'r Cynulliad er mwyn iddynt gael eu rhoi ar waith o fis Ebrill 2003.

Byddai'r strategaethau newydd yn rhesymoli'r cynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol presennol ac yn mynd i'r afael â strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles mewn ffordd gyfannol. Byddai rhyngwyneb agos â chynlluniau lleol eraill megis y rhai ar gyfer tai a chamddefnyddio sylweddau.

2.2 Mewn ymateb i'r cwestiynau a'r pwyntiau a wnaed gan yr aelodau, dywedodd y Gweinidog y canlynol :

- byddai gan y gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol newydd rôl allweddol wrth asesu anghenion lleol.
- Mae Adran 4 o'r canllawiau yn nodi sut y byddai'r broses yn cael ei rheoli a sut y byddai'r strategaethau yn cael eu gosod yn fframwaith polisi strategol cenedlaethol.
- Nid oedd y fframwaith strategol yn wanach na'r ddeddfwriaeth a oedd wedi llywodraethu'r Cyd-Gynghorau Ymgynghorol (JCCs). Byddai gofyniad i'r partneriaid statudol ymgynghori a chydweithio â'r sector gwirfoddol.
- Byddai'r sector gwirfoddol yn sicrhau nad oedd y partneriaid statudol yn gweithio'n ddwyochrog ac yn eu hallgáu.
- Mae strwythur y Byrddau Iechyd Lleol yn cynnwys y sector gwirfoddol a chynrychiolydd o'r gofalwyr.
- Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i a ddylai ymglymiad gofalwyr, ac anghenion grwpiau eraill sy'n hawdd eu niweidio gael eu pennu yn y canllawiau, petai'r ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi bod pryder ynghylch rôl y rhan honno o'r sector gwirfoddol.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar a fyddai'r trefniadau polisi rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol yn feincnod ar gyfer Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, dywedodd y Gweinidog mai mater i'r Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol oedd y cytundebau.

**Camau i'w cymryd**

- Y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch a fydd hi'n cynnwys cyfeiriad penodol at Ofalwyr yng nghorff y canllawiau.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol ynghylch argaeledd y trefniadau polisi â llywodraeth leol

**Eitem 3: Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru**

*(9.45-11.10am)*

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru a'r tri Chomisiynydd Cynorthwyol. Roedd Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth; a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes hefyd wedi cael eu gwahodd.

Croesawodd y Cadeirydd Gwenda Thomas o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ac Eleanor Burnham o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

3.2 **Amlinellodd y Comisiynydd Plant** y cynnydd sydd wedi'i wneud ers ei benodi. Roedd y deg mis cyntaf wedi cael eu treulio yn sefydlu'r swyddfa a'r systemau ac yn penodi staff yn bennaf, ond roedd gwaith a oedd yn torri tir newydd wedi cael ei wneud hefyd. Roedd plant wedi cael eu cynnwys yn y broses o benodi'r staff.

Cyflwynodd ei gydweithwyr a aeth ymlaen i esbonio eu rolau.

3.3 **Rhian Davies** oedd yn gyfrifol am werthuso polisi a gwasanaeth. Ei thasg gyntaf ers dechrau ar ei swydd ym mis Mawrth, oedd cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol ar gyfer eiriolaeth annibynnol i blant a threfniadau achwyn yng ngoleuni argymhellion Adroddiad Waterhouse. Yr oedd 2,600 o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dod i law ac roedd y rhain yn cael eu dadansoddi. Byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn a byddai hwn yn nodi arferion da.

3.4 **Maria Battle** oedd yn delio â materion cyfreithiol a gweinyddu a hi hefyd oedd y Dirprwy Gomisiynydd. Yr oedd y Comisiynydd yn cadw cyfreithwyr arbenigol eraill. Ei thasg fawr gyntaf oedd sefydlu a rheoli tîm i gefnogi ymchwiliad Clywch.

3.5 Rôl **Sarah Reid** oedd cynnal deialog â phlant a phobl ifanc yn bennaf a hyrwyddo gwaith y Comisiynydd i blant a phobl ifanc, a hefyd i'r oedolion sy'n gweithio gyda hwy. Roedd y gystadleuaeth i ddylunio'r logo wedi bod yn gyfle i hysbysebu gwaith y Comisiynydd. Roedd yn bwysig nad oedd ymchwil sy'n ymwneud â phlant yn copïo dulliau oedolion. Roedd hi wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc i ddarganfod pa faterion oedd yn peri’r pryder mwyaf iddynt. Roedd nifer yn poeni ynghylch cyflwr gwael toiledau ysgol a’r teimlad oedd nad oedd hyn yn fater y byddai oedolion yn ei oddef. Roedd ysmygu a bwlio yn faterion eraill a oedd wedi’u codi.

3.6 Dywedodd Peter Clarke fod ei swyddfa’n cydweithio â Phrifysgol Cymru ar brosiect ymchwil, a chynigiwyd defnyddio'r prosiect hwn fel ffordd o asesu dealltwriaeth plant o'u rôl.

3.7 O safbwynt y Comisiynydd, tlodi ymhlith plant oedd y prif fater ac fe awgrymodd y dylai fod gan y Cynulliad strategaeth er mwyn mynd i'r afael ag ef.

3.8 Yr ail fater pwysicaf oedd canfyddiad y plant a'r bobl ifanc nad oedd oedolion yn eu parchu, ac roedd hyn yn aml yn cael ei atgyfnerthu gan y cyfryngau. Roedd yn bwysig i blant gymryd rhan yn yr ymgynghori a'r broses benderfynu ac i'w rhan fod yn real ac nid yn symbolaidd.

3.9 Mater arall a godwyd gan blant, pobl ifanc a'u rhieni oedd y diffyg adnoddau i fodloni anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig, ansawdd adeiladau ysgolion a phrofion yn yr ysgolion. Dros y flwyddyn sydd i ddod byddai'n edrych ar effeithiau Safonau Uwch Gyfrannol ar blant. Croesawodd

safiad y Cynulliad ar gosbi plant yn gorfforol a byddai'n ymgyrchu am newidiadau yn y gyfraith.

3.10 Rhoddodd y Comisiynydd a'i gydweithwyr yr ymatebion canlynol i gwestiynau'r Aelodau:

- Dylai'r Cynulliad ddatblygu strategaeth drosfwaol i gael gwared ar dlodi ymhlith plant yng Nghymru. Roedd pocedi o dlodi yn y cymoedd ac mewn ardaloedd gwledig a dylai'r strategaeth ganiatáu targedu ar lefelau lleol. Datblygu economaidd yw'r allwedd i godi hyder y cymunedau. Mae angen i ddata gael ei ddadagregu i'r lefelau hynny, ac mae angen i'r bobl leol, gan gynnwys pobl ifanc gymryd rhan yn y gwaith cynllunio a gweithredu.
- Roedd gan Weriniaeth Iwerddon strategaethau a mentrau ar dlodi ymhlith plant a oedd yn haeddu cael eu harchwilio.
- Roedd yna ardaloedd lle'r oedd pobl ifanc o dan anfantais oherwydd y sytem budd-daliadau gwladol a byddai'n edrych ar y rhain yn y dyfodol.
- Roedd pryder am lefel y ddyled mewn teuluoedd o ganlyniad i wario ar y Nadolig mewn ymateb i hysbysebu. Nid oedd y bobl ifanc eu hunain yn hapus gyda'r ffordd y maent yn cael eu hegsbloitio. Roedd y Comisiynydd hefyd yn pryderu bod plant yn cael eu rhywioli gan hysbysebwyr.
- Roedd rhai ysgolion wedi cymryd camau cadarnhaol i gael gwared ar drefniadau gwahaniaethol mewn perthynas â phrydau cinio am ddim.
- Petai ysgolion yn cael eu hadeiladu ar safleoedd tirlenwi byddai iechyd y plant a oedd yn eu mynychu yn cael ei fonitro yn agos. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymchwil ar effeithiau tymor hir datblygiadau tebyg mewn mannau eraill yn y byd.
- Roedd anghysondebau yn y rheoliadau cynllunio nad oedd yn caniatáu i dai gael eu hadeiladu ar safleoedd o'r fath, ond a oedd yn caniatáu adeiladau cyhoeddus.
- Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i gysylltu â phlant a phobl ifanc mewn grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio, gan weithio trwy asiantaethau allestyn eraill. Amcangyfrifwyd bod tua 3,000 o blant i deithwyr yng Nghymru, cymaint â'r rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol.
- Roedd y Comisiynydd wedi cyfarfod â Syr Ronald Waterhouse i siarad am gyfrifoldebau'r awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol. Nid oedd nifer o'r cynghorwyr lleol yn deall eu rôl a'r goblygiadau cyfreithiol o hyd.
- Er nad oedd neb wedi gwrthod rhoi tystiolaeth i ymchwiliad Clywch, roedd y Comisiynydd yn teimlo y gallai fod angen pwer pellach i roi gwys tystion yn y dyfodol er mwyn cynnal ymchwiliad effeithiol.

3.11 Yn olaf, dywedodd y Comisiynydd y byddai'n hoffi cyflwyno ei adroddiad blynyddol i Aelodau'r Cynulliad i gyd yn y dyfodol, am fod ei gylch gorchwyl mor eang.

3.12 Fe wnaeth y Gweinidog longyfarch y Comisiynydd a'i staff ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt hyd yn hyn. Dywedodd fod y rheolau sefydlog yn atal y Comisiynydd rhag cyflwyno ei adroddiad i'r Cynulliad yn y cyfarfod llawn, ond y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i'r adroddiad yn y flwyddyn newydd ac y byddai dadl yn y cyfarfod llawn ar yr ymateb.

3.13 Daeth Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc â ffocws arbennig ar faterion plant ar draws cyfrifoldebau'r Cynulliad. Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried strategaeth wrth-dlodi drosfwaol ymhlith plant. Roedd tlodi materol yn bwysig, ond roedd materion lles a chymryd rhan, a chael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau o dan sylw hefyd.

3.14 Roedd Ms Hutt yn gweithio gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar y rhyngwyneb rhwng cynllunio ac iechyd. Byddai Canolfan Iechyd newydd Cymru yn gallu cynnig cyngor annibynnol ar faterion iechyd y cyhoedd.

**Camau i'w cymryd**

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn argymell eu bod yn ystyried y materion addysg yn adroddiad y Comisiynydd.

**Eitem 4: Cyflwyniad gan y Gymdeithas Strôc**

*(11.30 tan 12.10pm)*

4.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r Gymdeithas Strôc. Dywedodd Eoin Redahan ei bod yn flin gan Margaret Goose, y Prif Weithredwr, nad oedd hi'n gallu dod i'r cyfarfod. Yn ei habsenoldeb ef fyddai'n gwneud y cyflwyniad.

4.2 Roedd y Gymdeithas yn falch bod y Cynulliad yn dangos pryder ynghylch nifer y bobl sy'n cael strôc a gofalu am y bobl sy'n dioddef o strôc.

4.3 Amcangyfrifwyd bod dros 7,500 o achosion newydd o strôc bob blwyddyn. Byddai traean o'r bobl sy'n cael strôc yn marw, traean yn gwella a byddai traean yn parhau i ddioddef effeithiau tymor hir. Roedd tua 35,000 o bobl yn byw gyda sgil-effeithiau strôc, a oedd hefyd yn effeithio ar eu teuluoedd. Mae cost trin a gofalu am bobl sydd wedi dioddef o strôc yn fwy na'r gost o ofalu am bobl sy'n dioddef o glefyd coronaidd y galon.

4.4 Roedd ymchwil yn dangos bod cleifion sy'n cael eu trin mewn uned strôc 20% yn llai tebygol o farw neu fod yn anabl. Man sydd â gwelyau arbennig lle mae pobl yn cael eu trin gan dîm aml-ddisgyblaeth sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig yw uned strôc. Byddai cleifion strôc yn cymryd 20% o welyau aciwt a 25% o welyau tymor hir. Byddai uned arbennig yn rhyddhau'r gwelyau hynny a byddai'n ffordd mwy effeithiol o drin cleifion.

4.5 Roedd ymchwil gan y Coleg Brenhinol y Meddygon yn dangos mai dim ond 17% o gleifion strôc yng Nghymru sy'n treulio dros hanner eu hamser mewn ysbyty, mewn uned arbennig. Roedd hyn yn cymharu â chyfartaledd o 27% ar draws Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

4.6 Dywedodd Mr Redahan fod y Gymdeithas Strôc yn gweithio gydag unigolion a sefydliadau i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau, yn ariannu ymchwil, yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac yn contractio gyda'r GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gofal a chefnogaeth i'r teulu.

4.7 Byddai’r Gymdeithas yn hoffi i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Strôc.

4.8 Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau dywedodd Mr Redahan:

- Gellid gwneud mwy i atal pobl rhag cael strôc. Mae rheoli pwysedd gwaed yn fwy hanfodol yn achos strôc nag yn achos clefyd y galon. Dylai Meddygon Teulu fesur pwysau gwaed bob tro y byddant yn gweld claf.
- Roedd 80% o'r halen sy'n cael ei fwyta mewn bwydydd a weithgynhyrchwyd. Roedd cynhyrchwyr masnachol yn araf yn ymateb, ond roedd un archfarchnad yn raddol yn lleihau faint yr halen sydd mewn bara.
- Gallai ymarfer corff a deiet addas hefyd helpu i leihau'r siawns o gael strôc.
- Gallai triniaeth ddwys am chwe mis ar ôl cael strôc fod o fudd i'r claf a gallai fod yn gost effeithiol i'r gwasanaeth iechyd.
- Yn aml, byddai ail strôc yn digwydd am nad oedd pobl yn newid eu ffordd o fyw, yn monitro eu pwysau gwaed nac yn cymryd meddyginiaeth i deneuo'r gwaed.
- Roedd angen hyfforddiant ar staff yr uned strôc er mwyn gallu adnabod effeithiau strôc. Er enghraifft, roedd cleifion yn aml yn cael anhawster i lyncu ac os nad oedd hynny'n cael ei adnabod a'i drin gallai bwyd fynd i fewn i'w hysgyfaint ac arwain at niwmonia.
- Maer Coleg Brenhinol y Meddygon wedi paratoi canllawiau ar ofal da ar ôl cael strôc, gan gynnwys fersiwn ar gyfer cleifion.
- Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol ystyried y ffordd orau o gellid darparu gofal ar gyfer strôc yn eu hardal hwy. Mewn rhai ardaloedd y lleoliad gorau ar gyfer uned strôc fyddai mewn ysbyty aciwt, mewn ardaloedd eraill byddai ysbyty cymunedol yn well.
- Efallai na fyddai gofal seibiant neu ailsefydlu mewn cartrefi nyrsio preifat yn addas am na fyddai therapi dwys ar gael.

4.9 Dywedodd y Gweinidog fod y Gymdeithas Strôc wedi gwneud llawer i godi proffil strôc yng Nghymru lle mae yna rwydweithiau agosach, a haws cael mynediad atynt. Roedd y materion a godwyd yn berthnasol i eraill, megis rhyddhau cleifion yn hwyr o’r ysbyty, datblygu timau aml-ddisgyblaeth a hybu iechyd. Byddai'n ystyried a ddylid cael strategaeth er mwyn mynd i'r afael yn benodol â strôc.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Rhagfyr 2002